Gŵyl Gregynog 2020: Haelioni

15–21 Mehefin 2020

Mae Gŵyl Gregynog (15–21 Mehefin), gŵyl gerddoriaeth glasurol hynaf Cymru, yn dathlu canmlwyddiant pwysig ym Mhlas Gregynog gyda rhaglen gref ar gyfer 2020 dan y teitl 'Haelioni', rhaglen sydd wedi'i hysbrydoli gan noddwragedd Cymreig y gorffennol. Mae'r prif artistiaid yn cynnwys y mezzo-soprano Lea Desandre ac Ensemble Jupiter, sy'n perfformio am y tro cyntaf yn y DU drwy gyflwyno rhaglen o waith Vivaldi dan gyfarwyddyd Thomas Dunford; y telynor Maximilian Ehrhardt; a'r band gwerin aml-arobryn VRî. Cyflwynir rhaglen gyfoethog o sgyrsiau ac arddangosfeydd i gefnogi'r digwyddiadau cerddorol, a hynny dan arweiniad yr haneswyr Peter Lord, Shaun Evans a Rhian Davies, Cyfarwyddwr Artistig yr Ŵyl. Cyflwynir hefyd gyngherddau allgymorth cymunedol gan Alis Huws o Ddyffryn Banw a benodwyd yn ddiweddar yn Delynores Swyddogol Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru.

Mae 2020 yn nodi can mlynedd ers i Gwendoline a Margaret Davies brynu Plas Gregynog, maenordy godidog ger Y Drenewydd yng nghalon Canolbarth Cymru, er mwyn gwireddu eu gweledigaeth o greu canolfan i'r celfyddydau yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Gadawodd y chwiorydd, wyresau'r diwydiannwr cyfoethog David Davies, Llandinam, waddol eithriadol wych ar eu hôl yng Ngregynog – roedd yn gartref i'w casgliad preifat enwog o baentiadau (a waddolwyd i Amgueddfa Genedlaethol Cymru), a dyma lle y cynhaliwyd hefyd Ŵyl Gregynog, gŵyl sy'n parhau hyd y dydd hwn yn awyrgylch glyd Ystafell Gerdd y Plas.

Meddai Rhian Davies: "Mae'n wir fraint cael bod yn geidwad Gŵyl Gregynog a'r traddodiad cerddorol rhyfeddol a gadwyd ym Mhlas Gregynog. Wedi cael fy ysbrydoli, fel bob amser, gan y chwiorydd Davies, rwyf wedi curadu rhaglen gerddorol a llenyddol ar gyfer y flwyddyn ganmlwyddiant bwysig hon, rhaglen sy'n dathlu eu treftadaeth artistig yn y Canolbarth, ac sy'n eu gosod o fewn cyd-destun ehangach o noddwragedd Cymreig blaenllaw eraill o'r gorffennol."

Rhaglen

Mercher 17 Mehefin, 1.00pm - Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, SY23 3BU
Dr Rhian Davies - 'Communicating loveliness to others': Patronesses of music in Wales

Mae Gŵyl Gregynog 2020 yn dathlu 100 mlynedd ers i Gwendoline a Margaret Davies brynu Plas Gregynog ar 31 Gorffennaf 1920. Bydd Cyfarwyddwr Artistig yr Ŵyl yn trafod y tymor, sydd eleni yn

ystyried y chwiorydd fel rhan o'r traddodiad o nawdd cerddorol gan fenywod ym mhlastai gwledig Cymru.

Mercher 17 Mehefin, 3.00pm - Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, SY23 3BU
Datganiad gan Alis Huws o Ddyffryn Banw a ddaeth yn Delynores Swyddogol Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru ym mis Gorffennaf 2019, y chweched cerddor i ddal y swydd ers iddi gael ei hadfer yn 2000, a'r cyntaf o Ganolbarth Cymru.

Gwener 19 Mehefin, 4.30pm – Ymweld â The Moat, Ceri, SY16 4NZ
Cyfle prin i ymweld â chyn-gartref Elizabeth Jenkins (Eos y Bele, m.1854) a'i gŵr,
Y Parch. John Jenkins (Ifor Ceri, 1770–1829); yr oedd eu cartref, The Moat, yn agored i gyfansoddwyr Cymreig blaenllaw, awduron a hynafiaethwyr, yn ogystal â pherfformwyr teithiol ac arlunwyr.

Gwener 19 Mehefin, 7.30pm - Eglwys Sant Mihangel a'r Holl Angylion, Ceri, SY16 4NX
Bydd y band gwerin-siambr deinamig VRï, enillwyr y wobr am yr Albwm Gorau yng Ngwobrau Gwerin Cymru 2019, yn ymuno â'r haneswyr Peter Lord a Rhian Davies i edrych ar gerddoriaeth o gasgliadau Elizabeth Jenkins (Eos y Bele, m.1854) a'i gŵr, Y Parch. John Jenkins (Ifor Ceri, 1770–1829). Arferid perfformio'r *repertoire* hwn yn Eglwys Ceri pan oedd Mr Jenkins yn ficer yno, 1807–29, a phan oedd y ddau yn byw yn The Moat.

Sadwrn 20 Mehefin, 4.30pm - Gregynog, Tregynon, SY16 3PW
Dr Shaun Evans – Property, payments and patronage: The account book of Elizabeth Giffard of Nerquis Hall

Bydd Cyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ym Mhrifysgol Bangor yn cyflwyno bywyd hynod ddifyr Elizabeth Giffard (1766–1842), menyw oedd yn berchen ar ystad yng Nghymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Sadwrn 20 Mehefin, 7.30pm - Gregynog, Tregynon, SY16 3PW
'Forgive, blest shade': Music for a Welsh patroness

Bydd y telynor gwych hwn o'r Almaen, Maximillian Ehrhardt, sy'n arbenigwr ar chwarae offerynnau hanesyddol, yn ail-greu byd sain Elizabeth Giffard drwy berfformio detholiad o'i llyfr cerddoriaeth ar delyn gweithiad-sengl. Bydd datganiad Maximilian yn cynnwys *repertoire* gan gyfansoddwyr Cymreig ac Ewropeaidd a gynrychiolir yn y llawysgrif, gan gynnwys Benjamin Cunnah (1775–1840) a fu'n gweithio yn Neuadd Nercwys, Wynnstay ac Erddig.

Sul 21 Mehefin, 4.30pm - Gregynog, Tregynon, SY16 3PW
Dr Rhian Davies - 'Communicating loveliness to others': Patronesses of music in Wales

Cyfle arall i glywed y Cyfarwyddwr Artistig yn trafod noddwragedd cerddoriaeth yng Nghymru, gan gynnwys Mariamne Johnes (1784–1811) Hafod, a'r Eidalwr Giuseppe Viganoni (1753–1822) oedd yn athro cerddorol iddi; dyma'r ddau a ysbrydolodd y cyngerdd heno.

Sul 21 Mehefin, 7.30pm - Gregynog, Tregynon, SY16 3PW - Lea Desandre & Ensemble Jupiter
Mae Ensemble Jupiter, y grŵp aml-arobryn sy'n chwarae cerddoriaeth gynnar dan gyfarwyddyd y liwtydd Thomas Dunford, a'r mezzo-soprano Lea Desandre, yn rhoi eu perfformiad cyntaf yn y DU yn yr Ystafell Gerdd drwy berfformio rhaglen o ddarnau arddangos meistrolgar gan Vivaldi.

Swyddfa Docynnau

Am wybodaeth bellach ynghylch Gŵyl Gregynog 2020 ewch i: www.gregynogfestival.org

Ffôn: 01686 207100/Ebost: sarah@gregynogfestival.org

Diwedd

NODYN I OLYGYDDION:

Mae Gŵyl Gregynog 2020 yn cydnabod yn ddiolchgar nawdd hael Cyngor Celfyddydau Cymru, Elusen Gwendoline a Margaret Davies, Live Music Now, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Nidec | Control Techniques, Cyngor Tref Y Drenewydd a Llanllwchaearn a Tŷ Cerdd.

Gallwch ddilyn yr Ŵyl ar Facebook

@gregynogfest

Ar gyfer Ymholiadau'r Wasg a Ffotograffau: Kate Gedge

Ffôn: + 44 (0) 1874 730300 neu 07754 149577

Mawrth 2020